**Y Pwyllgor Diwylliant CC-2-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 17 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm-3.30pm |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

**Ymddiheuriadau**

Alison Halford (Llafur, Delyn)

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Adam Peat (Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol, Tai a Diwylliant)

Margaret Evans (Pennaeth, Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon) – eitem 2 yn unig

**Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd y Pwyllgor ar yr adolygiad o'r Gymraeg)

**Datganiadau o fuddiant:**

1. Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
2. Rosemary Butler – Cadeirydd Bwrdd Cysgodol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.
3. Dafydd Wigley – cyhoeddwyd llyfr ganddo yn ddiweddar dan nawdd Cyngor Llyfrau Cymru.

**Sylwadau rhagarweiniol**

- Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y ddau gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor – ym Mhontypridd ar 23 Ionawr a Phontyberem ar 6 Chwefror – yn sioeau teithiol ar yr iaith Gymraeg. Yn dilyn y cyfarfod ar 6 Chwefror byddai ymweliad â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Byddai bysys Gwennol ar gael ar gyfer aelodau ar y ddau ddiwrnod.
- Trosglwyddodd y Cadeirydd wahoddiad agored i'r Aelodau ymweld â'r Ganolfan Iaith Genedlaethol yn Nant Gwrtheyrn.

**<u>Eitem 1: Adolygiad yr Iaith Gymraeg – Trafodaeth ag aelodau o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (LlLaTh)</u>**

**<u>Papurau: CC-2-02(p.1)</u>**

Cyflwynodd y Cadeirydd Gadeirydd y Pwyllgor LlLaTh, Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog, Peter Black AC, Janet Davies AC, aelod o'r Pwyllgor a John Rees o'r Gyfarwyddiaeth Dai. Dywedodd mai diben y sesiwn hon oedd i'r ddau Bwyllgor rannu gwybodaeth am y gwahanol faterion yn ymwneud â thai a oedd wedi codi yn ystod yr adolygiad o'r iaith Gymraeg.

Rhoddodd Gwenda Thomas AC grynodeb o brif bwyntiau trafodaeth y Pwyllgor LlLaTh â Cymuned ar 7 Tachwedd a'i drafodaeth ar yr iaith Gymraeg wedi hynny ar 21 Tachwedd.

Rhoddir amlinelliad o’r rhain yn Atodiadau B ac C i’r papur CC-2-02(p.1).

Ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, gwnaeth Peter Black y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Roedd yn cydnabod bod y Gymraeg yn rhan hanfodol o fywyd y gymuned mewn llawer rhan o Gymru ac yn sylweddoli y gallai polisïau tai y Cynulliad roi cynhaliaeth i’r Gymraeg.
- Dywedodd fod y Strategaeth Genedlaethol yn strategaeth ar gyfer holl bobl Cymru ac nad yw wedi ei chyfyngu i bobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig, nac i siaradwyr y Gymraeg. Mae cysylltiadau hefyd rhwng y Strategaeth a llawer sector arall fel iechyd a diwylliant.
- Amlinellodd y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei rhoi i helpu pobl i ddod yn berchenogion cartrefi, er enghraifft trwy’r cynllun Cymorth Prynu, ond dywedodd mai mater i awdurdodau lleol oedd penderfynu i ba raddau y defnyddir y cynlluniau hyn mewn ardaloedd arbennig.
- Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn rhoi cymorth penodol tuag at berchenogaeth isel ei chost mewn ardaloedd gwledig, trwy gynyddu’r benthyciad ecwiti mwyaf a oedd ar gael dan y cynllun Cymorth Prynu o 30%-50%. Bu cynnydd hefyd o £3m dros ddwy flynedd yn y dyraniad i gefnogi Cymorth Prynu mewn ardaloedd gwledig.
- Roedd y Cynulliad yn ystyried ymatebion i ymarfer ymgynghori yngl•n â rhoi cyfyngiadau pellach ar yr Hawl i Brynu a’r Hawl i Gaffael mewn ardaloedd gwledig fel bod tai isel eu cost yn parhau i fod ar gael i bobl leol.
- I orffen, dywedodd Peter Black y gallai polisïau tai y Cynulliad, oherwydd y gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg a drigai mewn ardaloedd gwledig, wneud cyfraniad arwyddocaol i ddiogelu’r iaith Gymraeg.

Gwnaed y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Bu peth trafod pam nad oedd awdurdodau lleol wedi manteisio ar y cyfan o’r Grant Tai Cymdeithasol o £1.5m a oedd yn cael ei gynnig eleni ar gyfer y Cynllun Cymorth Prynu. Dywedodd Peter Black mai mater i’r awdurdodau lleol oedd pennu blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi ac nad oedd terfyn ar y gyfran y gallent ei gwario ar berchenogaeth cartrefi isel eu cost os oedd hynny’n cael ei ystyried yn flaenoriaeth ddigon uchel. Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig punt am bob punt o Grant Tai Cymdeithasol a oedd yn cael ei ddyrannu gan awdurdodau lleol i Gymorth Prynu gwledig. Roedd y cyllid cyfatebol hwn ar gael i annog awdurdodau lleol i ddefnyddio’r Cynllun Cymorth Prynu. Nododd sawl aelod yr hoffent weld cynnydd yn y swm a oedd ar gael ar gyfer y cynllun Cymorth Prynu.
- Nododd rhai aelodau eu cefnogaeth i gyflwyno ‘pecynnau croeso’ i ddarpar fewnfudwyr i Gymru. Cynllun gwirfoddol oedd hwn gan werthwyr tai ac roedd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu nad oedd y pecynnau yn cael eu rhoi bob amser. Dywedodd Peter Black fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod cynhyrchu pecynnau a thaflenni rhanbarthol

â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Dywedodd y Cadeirydd hefyd ei fod wedi trafod y syniad â haneswyr ac archifwyr a oedd yn awyddus i gyfrannu at becynnau o'r fath.

- Roedd Delyth Evans AC yn dymuno mynegi ei gwerthfawrogiad o gyfraniad adeiladol Cymuned i'r drafodaeth ar dai a'r iaith Gymraeg. Cefnogai'r angen i gael caniatâd cynllunio cyn newid statws t• parhaol yn d• haf ac roedd hefyd o blaid asesiadau iaith a phecynnau croeso. Derbyniai na ddylai'r Cynulliad gyfyngu ar hawl yr unigolyn i fyw mewn ardal arbennig, ond pan oedd gwrthdaro rhwng anghenion cymunedau Cymraeg ac anghenion mewnfudwyr yna dylai anghenion y gymuned gael blaenoriaeth. Teimlai y dylai'r Cynulliad fod yn fwy parod i ystyried gweithredu mewn ffordd a ddiogelai anghenion y cymunedau hyn. O ran adroddiad terfynol y Pwyllgor, dywedodd Delyth Evans y dylai'r Pwyllgor ddisgrifio ei flaenoriaethau ar gyfer cynllunio a'r iaith, ond y dylai adael i eraill wneud yr argymhellion manwl. Roedd y Cadeirydd ac aelodau eraill yn cytuno â'r dull hwn.
- Teimlai'r aelodau fod angen i'r atebion i'r anawsterau a wynebid gan "gadarnleoedd" y Gymraeg fel y'u gelwid fod yn fwy creadigol ac anturus nag y buont.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor ystyried ailddiffinio "cadarnleoedd" fel "ardaloedd ieithyddol arwyddocaol".
- Bu peth trafod ar yr angen i gael caniatâd cynllunio cyn newid statws annedd parhaol yn d• haf. Dywedodd Peter Black ei bod yn debygol mai materion i San Steffan yn hytrach na'r Cynulliad fyddai unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol.
- Bu'r aelodau hefyd yn trafod arweiniad manwl y Cynulliad ar gynllunio a'r Gymraeg – "Nodyn Cyngor Technegol 20" - a'r ffaith y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio hwn mewn ffordd gadarnhaol i helpu i ddiogelu'r iaith. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod yr arweiniad wedi ei newid yn ddiweddar ac y byddai'n cysylltu â Dr Mark Tewdwr-Jones o Brifysgol Llundain am ei ddadansoddiad o'r effaith a gâi'r newid hwn.
- Gofynnodd yr aelodau am ddyddiad arfaethedig yr Arolwg Tai nesaf. Cytunodd y swyddogion i ddarparu'r wybodaeth hon cyn gynted ag y byddai modd.
- Diolchodd y Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Diwylliant i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am drafodaeth adeiladol iawn ac am gyfraniad amhrisiadwy'r Pwyllgor i'r adolygiad o'r iaith Gymraeg.

**<u>Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog</u>**

**Papur: CC-2-02(p.2)**

Rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y gwahanol fanylion yn yr adroddiad:

- Roedd yr adroddiad yn crybwyll cais am ragor o wybodaeth gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ynghylch ei chynllun busnes. Roedd y wybodaeth honno bellach wedi cyrraedd ac roedd cyfarfod yn cael ei drefnu â Chadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Roedd pedwerydd cyfarfod Cymru'n Creu wedi ei gynnal y diwrnod cynt yn Nhrefforest.

Roedd Cymru'n Creu wedi cytuno i ffurfio gr•p gorchwyl a gorffen i ystyried posibilrwydd sefydlu Amgueddfa Chwaraeon Genedlaethol i Gymru.

Atgoffodd y Gweinidog yr aelodau hefyd ei bod wedi cyflwyno cynnig dan Reol Sefydlog 19.13 i awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy ar gyfer gwaredu tir yn Pierhead Street, Bae Caerdydd i Ganolfan Mileniwm Cymru am enw o gydnabyddiaeth. Eglurodd y Gweinidog fod rhaid dilyn y drefn hon oherwydd bod y tir yn cael ei waredu am lai na gwerth y farchnad. Prynwyd y tir gan Ddinas a Sir Caerdydd oddi wrth Grosvenor Waterside a'i drosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol am ffi isel; y cyfan oedd yn digwydd oedd bod y tir yn mynd trwy ddwylo'r Cynulliad i Ganolfan Mileniwm Cymru. Trwy gytuno i ryddhau'r tir, yr oedd Dinas a Sir Caerdydd yn ymryddhau o unrhyw ymrwymiadau annisgwyl i Grosvenor Waterside. Mae'r rhain bellach yn dod i'r Cynulliad. Bydd rhydd-ddaliad y rhan fwyaf o'r safle yn eiddo i'r Cynulliad a fydd yn ei alluogi i arfer elfen o reolaeth. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog roi gwybod i'r Pwyllgor am ddatblygiadau.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Wrth ateb cwestiwn yngl•n â chyfansoddiad tasglu Neuadd Enwogion y Chwaraeon, dywedodd y Gweinidog y byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y BBC, Cyngor Amgueddfeydd yng Nhgymru a'r Cyngor Chwaraeon i gyd yn cael eu cynrychioli ac y byddai ganddynt bwerau i gyfethol cyrff eraill yn ôl yr angen.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog ystyried cyllid ychwanegol i'r prosiect Cymru yn ei Blodau. Atebodd hithau ei bod yn ymwybodol o'r anawsterau a wynebai'r prosiect ers colli ei nawdd ac y byddai'n gofyn i swyddogion ymchwilio i'r mater.
- Gofynnodd yr aelodau ynghylch y posibilrwydd y gallai Cymru dderbyn cyfran fwy o gyllid Loteri. Atebodd y Gweinidog ei bod yn trafod hyn â Gweinidogion mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill a'i bod wedi codi'r mater yn ddiweddar hefyd â'r Gweinidog yn y Swyddfa Gymreig, Don Touhig.
- Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch cyhoeddiad diweddar yn y wasg a oedd fel petai'n awgrymu bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gwneud penderfyniad ynghylch Theatr Genedlaethol i'r Ddrama Gymraeg. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn ymwybodol o gyhoeddiad o'r fath ond y byddai'n ysgrifennu at Gyngor Celfyddydau Cymru am eglurhad.
- Wrth ateb cwestiwn am y diffyg arian a oedd ar gael ar gyfer cwmnïau theatr teithiol yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog fod CCC yn trafod rhaglen deithio ehangach â Chyngor Celfyddydau Lloegr, a bod yna gynigion i osod y cwmnïau hyn ar raglen sefydlogi yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben tua 15.30 o'r gloch.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ionawr 2002